John Muir Award case study

# Ieuenctid Torfaen (Torfaen Youth Service)

## Gweithredu Cymdeithasol yn cefnogi pontio i'r Ysgol Uwchradd – Hydref 2017

Proudly supporting youth social action

#iwill

Mae Prosiect Pontio Torfaen, sy'n cael ei arwain gan Wasanaeth Ieuenctid Torfaen, yn gweithio gyda disgyblion sydd wedi cael eu hadnabod fel rhai a allai weld y newid i addysg uwchradd yn un anodd.

Mae'n gallu bod yn gyfnod anodd ar y gorau, heb son os nad ydych yn teimlo yn hyderus, cael anhawster i gyfathrebu neu yn dioddef rhyw anfantais. Mae'r cynllun bellach yn ei 6ed flwyddyn, mae gweithwyr ieuenctid ac athrawon o Gyngor Sir Torfaen yn cydweithio gyda disgyblion o bob clwstwr cynradd, gan eu cynnwys mewn amryw o gyfleon addysg awyr agored fel ffordd i godi hyder a gwneud ffrindiau newydd.

### Gweithredu cymdeithasol yn ne Cymru

Mae gweithredu cymdeithasol ar gyfer pobl ifanc yn nodwedd sydd ar gynnydd yng ngweithgarwch ysgolion, allbynnau cwricwlwm, profiad gwaith a chysylltiadau cymunedol. Mae defnyddio gwobr John Muir wedi rhoi cyd destun i'r disgyblion i ofalu am lefydd y daethant i'w hadnabod.

""*Er gwaethaf y nifer o barciau, y cefn gwlad a lan mor sydd ond ychydig filltiroedd o Torfaen, mae nifer o'r bobl ifanc yma gyda ychydig neu ddim mynediad i i ardaloedd gwyllt anhygoel de Cymru*" yn ol gweithiwr ieuenctid Jess Pullin.

*"Mae gweld sut reddent yn mwynhau yr ardaloedd newydd yma yn wych, y ffordd roeddent yn gofalu a chymryd cyfrifoldeb am y llefydd gwyllt yma yn arbennig iawn."*

Plannwyd coed, gwnaethpwyd arolygon o safon y dwr, bywyd gwyllt yn y cloddiau, casglwyd sbwriel megis plastig, metal a gwydr o'r parciau lleol, y traethau a'r gwarchodfeydd natur. Daethant yn ymwybodol o'r bwyd gwyllt yn lleol trwy astudio llefydd bwydo ar gyfer adar, ardaloedd peillio ar gyfer Pili Pala a pheillwyr eraill, ynghyd ag adeiladu cartrefi i adar, draenogod a ty pryfaid.

### Ail Ymweld ag Ardaloedd Gwyllt

Daeth atgofion yn ol i rai, ac agoriad llygaid i eraill wrth ymweld ag arfordir de Cymru ac ardaloedd gwyllt Torfaen – sir fach gyda threfi diwydiannol Cwmbra a Pontypwl yn y de gyda ardaloedd eang o gefn gwlad yn y gogledd, 11 milltir o Gasnewydd. Yn ol Helen Keeble o Wasanaeth Ieuenctid Torfaen. *"Raedd y disgyblion wedi treulio amser yn yr ardaloedd hyn yn ystod eu bywydau, ond efallai ddim yn ddiweddar. Wrth ddefnyddio Gwobr John Muir i fframio gweithgareddau ar y traeth yn y pyllau neu hyd yn oed taflu cerrig, llwyddwyd i ail gysylltu disgyblion gyda ardaloedd gwyllt lleol, a'u gweld mewn ffordd hollol newydd".*

Dewiswyd pob safle oherwydd ei gymeriad naturiol, ond hefyd yn holl bwysig ei hygyrchedd – nod bwriadol i geisio lleihau rhwystrau i bobl gymryd rhan. Roedd pob safle naill ai o fewn pellter cerdded o'r ysgolion neu o fewn cyrraedd i drafnidiaeth gyhoeddus.

The John Muir Trust is a Scottish charitable company limited by guarantee. Charity No. SC002061 Company No. SC081620
Registered office: Tower House, Station Road, Pitlochry, PH16 5AN Find out more at johnmuirtrust.org

## Gwell Trawsnewidiadau

Roedd yn amlwg fod mwynhad ac ysgogiad yn bresenol trwy gydol y prosiect, cadarnhawyd hyn gan gydlynnydd Garnteg Primary School ALENCO/Family Partnership:

> "Roedd y bois yn disgwyl mlaen i fod yn rhan o'r prosiect bob wythnos, gan wneud yn siwr eu bod yn dod o hyd i mi, er mwyn cael dweud am eu diwrnod. Mi wnaeth helpu gyda'u hyder, ac roeddent yn falch eu bod wedi gallu gwneud gwahaniaeth"

Sylweddolwyd bod gwell presenoldeb a lleihad mewn problemau ymddygiad wedi deillio o'r cynllun, gan arddangos cynydd cadarnhaol unwaith yn amgylchedd addysg uwchradd. Mae cydnabod eu gwaith trwy Wobr Darganfod John Muir wedi codi eu hyder a'u hunan werth wrth wneud yn newid i gyfnod nesaf eu haddysg.



**Credit: Torfaen YS**

## Ymygyrch #iwill

Mae ymdrechion y grwpiau o Torfaen yn cyfrannu at gynllun gweithredu cymdeithasol i bobl ifanc cenedlaethol, mae ymgyrch #iwill yn hyrwyddo gwerth gweithredu cymdeithasol i bobl ifanc a'r cymunedau.

Mae'n anelu i sicrhau fod gan pob person ifanc fynediad i weithredu cymdeithasol, lle bynnag maent yn byw a be bynnag yw eu cefndiroedd – gan gynnwys gweithredu, codi arian a gwirfoddoli.

Mae gwobr John Muir yn cydweithio gydag ymgyrch #iwill er mwyn hyrwyddo gweithredu cymdeithasol twy Wobr John Muir. Rydym wedi cytuno i weithio gyda'n partneriaid i helpu 100,000 o bobl ifanc dros 4 oed (2016-2020) i ennill Gwobr John Muir, gan gymryd rhan mewn cadwraeth ymarferol sydd yn gwneud gwahaniaeth i lefydd gwyllt yn eu cymunedau ac ymhellach – gan ysbrydoli pob ifanc i gysylltu gydag ardaloedd gwyllt, eu mwynhau a gofalu amdanynt.

The John Muir Trust is a Scottish charitable company limited by guarantee. Charity No. SC002061 Company No. SC081620
Registered office: Tower House, Station Road, Pitlochry, PH16 5AN Find out more at johnmuirtrust.org